
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig Estheteg a Laser Mediskin Castell-nedd

Dyddiad: 4 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 4 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-622-9

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 9

   Ansawdd Profiad y Claf 9

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 12

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 15

4. Y camau nesaf 16

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 17

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 18

Atodiad C – Cynllun gwella 19



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Estheteg a Laser Mediskin ar 4 Awst 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o saith holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Clinig Estheteg a Laser Mediskin yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd dymunol.

Nododd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y clinig yn dda iawn.

Roedd systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd gan y clinig drefniadau effeithiol ar waith i gasglu adborth gan gleifion drwy sawl sianel, gan gynnwys opsiynau dienw.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Mae'r clinig yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.
- Roedd y clinig yn lân ac yn daclus iawn
- Roedd gan y clinig system ar waith ar gyfer ceisio safbwyntiau'r cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Clinig Estheteg a Laser Mediskin yn cydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant staff a chleifion.

Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd pob ardal yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg.

Roedd trefniadau da ar waith i sicrhau bod y peiriannau laser a Goleuni Pwls Dwys (IPL) yn cael eu defnyddio mewn ffordd briodol a diogel.

Roedd mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, gan gynnwys polisi atal a rheoli heintiau. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu dilyn, ac roedd cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn wybodus iawn, yn broffesiynol ac yn dangos ei fod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal diogel ac effeithiol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y clinig a'r ystafelloedd trin wedi'u dylunio a'u gorffen i safon dda
- Roedd yr ystafelloedd trin yn lân, yn cynnwys cyfarpar addas ac yn addas at y diben
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth
- Roedd nodiadau'r cleifion o safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith yng Nghlinig Estheteg a Laser Mediskin. Roedd y gwasanaeth yn cael ei reoli gan reolwr cofrestredig ymroddedig, ac roedd gan y clinig ddogfennaeth gofrestru ac yswiriant priodol.

Nid oedd unrhyw ddigwyddiadau na chwynion wedi'u cofnodi ar adeg yr arolygiad, ac roedd systemau priodol ar waith i ymdrin â phryderon.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom dystysgrifau yn cadarnhau bod pob gweithredwr laser ac IPL wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer y peiriant ar ddefnyddio'r cyfarpar laser ac IPL yn ddiogel
- Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y clinig i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir. Cafwyd cyfanswm o saith ymateb.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn'. Nid oedd rhai o'r cleifion wedi ateb pob cwestiwn.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

> *"Mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac yn eich croesawu. Mae'r ystafelloedd a'r adeilad bob amser yn lân ac wedi'u diheintio."*
>
> *"Awyrgylch cyfeillgar tu hwnt. Mae (aelod o staff) yn wybodus iawn ac rwyf bob amser yn teimlo fy mod mewn dwylo da. Rwyf wedi gweld canlyniadau gwych hefyd."*
>
> *"Mae'r ffordd maent yn gwneud i mi deimlo yn anhygoel. Rwy'n hoffi'r ffaith nad oes byth unrhyw frys. Llawer o gyngor, heb unrhyw bwysau i brynu – dyna sy'n gwneud i mi ddychwelyd dro ar ôl tro. Rwy'n hoffi'r ffaith bod yr apwyntiadau yn bersonol iawn. Y tu hwnt i'm disgwyliadau."*

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwnaethom gadarnhau bod cleifion yn rhoi hanes iechyd a hanes meddygol cynhwysfawr cyn cael eu triniaeth gychwynnol a bod y wybodaeth hon yn cael ei hadolygu a'i diweddaru cyn unrhyw driniaethau dilynol. Gwnaethom gadarnhau bod hanesion meddygol yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y gweithredwyr laser ac IPL. Dywedodd pob un o'r cleifion wrthym fod y staff wedi gofyn am eu hanesion meddygol cyn iddynt gael triniaeth.

Urddas a pharch

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno'n gryf fod y gweithredwyr laser ac IPL wedi eu trin ag urddas a pharch pan wnaethant ymweld â'r clinig.

Roedd modd cloi drws yr ystafell drin, a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y drws yn cael ei gloi yn ystod triniaethau er mwyn cynnal preifatrwydd.

Roedd y cleifion yn cael tywelion er mwyn diogelu eu hurddas os oedd angen, ac roedd y staff yn gadael yr ystafell er mwyn iddynt ddadwisgo os oedd angen.

Roedd ymgyngoriadau yn cael eu cynnal yn yr ystafell drin, er mwyn sicrhau y gellid trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i neb arall ei chlywed.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gweithredwyr laser ac IPL wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod wedi gwrando arnynt ac wedi ateb unrhyw gwestiynau. Dywedodd un claf wrthym:

> *“Gwasanaeth gwych ar gyfer proses nad oes llawer o urddas yn perthyn iddi ar adegau. Rwyf bob amser yn teimlo'n gartrefol ac yn gyfforddus yn yr amgylchedd.”*

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y dewis o wahanol driniaethau, a'r gwasanaethau ôl-ofal.

Roedd cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb trylwyr cyn cael unrhyw driniaeth. Dywedwyd wrthym fod y trafodaethau hyn yn cynnwys y risgiau, y manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a oedd yn cael ei chynnig.

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth. Dywedodd un claf wrthym:

> *“Gwasanaeth rhagorol. Llawer o wybodaeth am driniaethau. Mae'r gwaith papur a'r ystafelloedd trin bob amser yn barod. Mae pob rhan o'r driniaeth yn cael ei hesbonio'n glir. Rwyf bob amser yn cael croeso cynnes ac yn teimlo'n gyfforddus.”*

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi cwblhau a llofnodi ffurflen hanes meddygol a ffurflen gydsynio, a'u bod wedi cael prawf croen cyn cael unrhyw driniaeth newydd. Dywedwyd wrthym fod pob claf yn cael prawf croen cyn i'r driniaeth ddechrau er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd y byddai unrhyw adweithiau niweidiol.

Gwelsom fod cleifion yn cwblhau ac yn llofnodi ffurflen hanes meddygol cyn cael triniaeth a bod eu hanes meddygol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn ystod apwyntiadau dilynol.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd datganiad o ddiben a chanllaw i gleifion ar gael i'r cleifion eu cadw.

Roedd y datganiad o ddiben yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaethau a gynigir.

Roedd gwybodaeth gynhwysfawr ar gael i'r cleifion ei darllen i'w helpu i wneud penderfyniadau am eu hopsiynau o ran triniaethau ac er mwyn iddynt gael manylion am y gwasanaeth. Gwelsom dystiolaeth o hyn yn y cofnodion a welsom.

Roedd pob un o'r cleifion yn cytuno bod y gweithredwyr laser ac IPL wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud drwy gydol y driniaeth a'u bod wedi gwrando arnynt.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth i gadarnhau bod pob claf yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn dechrau unrhyw driniaeth. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, roedd hanesion meddygol y cleifion yn cael eu casglu er mwyn sicrhau bod y driniaeth a ddewiswyd ganddynt yn addas.

Roedd gwybodaeth am driniaethau yn cael ei chofnodi yn ffeiliau'r cleifion unigol ac roedd cofrestr triniaethau yn cael ei chadw.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion a gwelsom dystiolaeth o gofnodion o safon dda iawn, a oedd yn ymdrin â phob rhan o daith y claf, cyn ac ar ôl cael triniaeth.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cyfle cyfartal ar waith. Roedd hyn yn golygu bod y clinig yn ymrwymedig i sicrhau bod yr un cyfleoedd a'r un driniaeth deg ar gael i bawb.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur nad oeddent wedi wynebu unrhyw wahaniaethu wrth gysylltu â'r gwasanaeth neu ei ddefnyddio.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i gael adborth gan gleifion er mwyn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Gallai'r cleifion roi adborth ar ddiwedd pob cwrs o driniaeth drwy holiadur a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gellid cyflwyno adborth a sylwadau yn ddienw hefyd.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Yr Amgylchedd

Roedd y safle yn amlwg yn lân iawn, yn daclus ac mewn cyflwr da. Roedd y clinig mewn cyflwr da ac yn darparu amgylchedd dymunol a chroesawgar i'r cleifion.

Roedd toiled rhywedd cymysg ar gael i'r cleifion, gyda chyfleusterau golchi a sychu dwylo priodol.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r clinig.

Gwelsom dystiolaeth bod Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi cael eu cynnal, er mwyn sicrhau bod yr offer trydanol bach yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom hefyd fod gwiriad weirio trydanol wedi cael ei gynnal o'r adeilad yn y pum mlynedd diwethaf.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael ym mhob rhan o'r clinig, a gwelsom dystiolaeth ei fod wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis blaenorol.

Roedd allanfeydd argyfwng yn weladwy ac roedd poster Iechyd a Diogelwch yn cael ei arddangos.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau, yn ogystal ag asesiadau risg ar waith yn y clinig, megis tân ac iechyd a diogelwch. Roedd yr holl asesiadau risg yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Roedd profion larwm tân yn cael eu cynnal yn ogystal ag ymarferion tân bob chwe mis.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd pob rhan o'r gwasanaeth yn lân yr olwg. Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y clinig. Cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn. Dywedodd un claf wrthym:

> *“Amgylchedd glân iawn. Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus iawn yn ystod pob ymweliad. Roedd y staff / yn fy achos i (aelod o staff) yn wych ac yn ofalgar iawn.”*

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig amrywiaeth o drefniadau atal a rheoli heintiau. Roedd y rhain yn cynnwys amserlen lanhau ddyddiol ar gyfer yr ystafelloedd trin, a oedd yn cynnwys glanhau'r peiriannau laser ac IPL, y gwely trin, y cyfarpar, a'r sbectolau cyn eu defnyddio.

Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer gwaredu a chasglu gwastraff clinigol, gan gynnwys offer miniog.

Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig sut y byddai'n delio ag unrhyw faterion diogelu. Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwyr laser ac IPL wedi cwblhau hyfforddiant lefel dau ar ddiogelu.

Roedd polisi ar waith i ddiogelu oedolion agored i niwed a phlant. Roedd gweithdrefnau clir i'w dilyn pe bai unrhyw bryderon diogelu, ynghyd â siartiau llif a manylion cyswllt a oedd yn rhestru'r camau i'w cymryd pe bai mater diogelu yn codi.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd tystysgrif gwasanaethu a chalibradu flynyddol cyfredol ar gael ar gyfer y peiriannau laser ac IPL. Roedd protocolau triniaeth ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac IPL ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Roedd contractau ar waith gyda dau Gynghorydd Diogelu rhag Laserau yn ogystal â rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriannau laser ac IPL yn ddiogel. Roedd y rheolau lleol wedi cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Cynghorwyr Diogelu rhag Laserau a'u llofnodi gan y gweithredwyr laser ac IPL.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr laser ac IPL. Roedd y cyfarpar amddiffyn y llygaid mewn cyflwr da a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod sbectolau yn cael eu gwirio'n rheolaidd am unrhyw ddifrod.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafelloedd trin i ddangos pan oedd y peiriannau laser ac IPL yn cael eu defnyddio. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig hefyd fod drysau'r ystafelloedd trin yn cael eu cloi pan oedd y peiriannau'n cael eu defnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Dywedwyd wrthym fod y peiriannau'n cael eu cadw'n ddiogel bob amser ac mai dim ond ag allwedd y gellid eu hactifadu, gan atal unrhyw achosion o'u gweithredu heb awdurdod.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorwyr Diogelu rhag Laserau.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd systemau addas ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Yn unol â'r rheoliadau, roedd y rheolwr cofrestredig yn cynnal archwiliadau amrywiol yn rheolaidd, yn ceisio barn cleifion er mwyn helpu i lywio gofal, ac yn asesu risgiau yn ymwneud â'r amgylchedd, diogelwch tân, cyfarpar, ac iechyd a diogelwch.

Dangosodd y rheolwr cofrestredig wybodaeth a dealltwriaeth dda mewn perthynas â'r triniaethau a ddarperir. Hefyd, disgrifiodd y rheolwr cofrestredig bwysigrwydd arsylwadau ar ôl triniaethau ac apwyntiadau dilynol â'r cleifion er mwyn helpu i ddarparu gofal gwell wedi'i deilwra at yr unigolyn drwy gydol cwrs o driniaeth.

Rheoli cofnodion

Edrychwyd ar sampl o gofnodion pum claf. Gwelwyd tystiolaeth bod cofnodion da iawn yn cael eu cadw, a oedd yn dangos bod gofal yn cael ei gynllunio a'i roi er mwyn sicrhau diogelwch a llesiant y cleifion. Roedd yr holl gofnodion a welsom wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn cynnwys dynodyddion cleifion priodol, hanes meddygol, y rhannau o'r corff a gafodd eu trin, paramedrau perthnasol, nifer y dosau a manylion unrhyw effeithiau andwyol. Roedd y cofnodion yn fanwl, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd da. Roedd y cofnodion yn cael eu cadw mewn ffordd drefnus a diogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom dystysgrif cofrestru gyfredol gan AGIC a thystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwr gyfredol yn cael eu harddangos.

Wrth edrych ar sampl o bolisïau a gweithdrefnau gwelsom fod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod yn cynnwys system rheoli fersiynau glir a/neu ddyddiadau adolygu. Roedd hyn yn dangos bod systemau priodol ar waith yn y gwasanaeth i gynnal a diweddaru dogfennau llywodraethu allweddol yn unol â'r safonau perthnasol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Gwnaethom gadarnhau â'r rheolwr cofrestredig na fu unrhyw ddigwyddiadau y dylid rhoi gwybod i AGIC amdanynt.

Roedd polisi cwynion ar waith, a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC. Roedd y weithdrefn gwyno hefyd wedi'i chynnwys yn y datganiad o ddiben.

Roedd gan y clinig system ar waith i gofnodi cwynion a phryderon ffurfiol. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd y clinig wedi cael unrhyw gwynion.

Arferion recriwtio a chyflogi’r gweithlu

Gwelsom fod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion y clinig ac i ddarparu triniaeth ddiogel i'r cleifion.

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwyr laser ac IPL wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth a hyfforddiant penodol ar gyfer y peiriant ar ddefnyddio'r system laser ac IPL.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Clinig Estheteg a Laser Mediskin

Dyddiad yr arolygiad: 4 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau			
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.	Ni nodwyd unrhyw faterion uniongyrchol yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.		
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: **Dyddiad:**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Estheteg a Laser Mediskin

Dyddiad yr arolygiad: 4 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

	Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Swydd: Dyddiad: